

CYFARFOD y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Ionawr 2016 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd B. Mellor (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. F. Moylan, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford, Parch. S. F. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

95. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd y Tad Charles Ramsey y cyfarfod trwy arwain pawb mewn gweddi.

96. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), S. H. Ratcliffe (ar wyliau), Miss S. L. Roberts (ymrwymiad gwaith), Miss R. Siddall (yn sâl), D. Simmons (ymrwymiad arall) a W. N. Tasker (yn sâl).

97. DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ADRAN 86 – DATGAN SWYDD WAG AR GYFER CYNGHORYDD CYMUNED YN WARD PLASTIRION

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar ôl ymddiswyddiad Aelod o'r Cyngor Tref, a dywedodd ymhellach y byddai'r swydd wag yn ymddangos yn rhifyn yr wythnos hon o'r Rhyl Journal.

98. COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 16eg Rhagfyr 2015 - Rhifau Cofnod 82-94

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 16eg Rhagfyr 2015 - Rhifau Cofnod 39-41

Cynigiwyd gan y Cyngorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cyngor Arbennig - 6ed Ionawr 2016 - Rhifau Cofnod 95-97

Cynigiwyd gan y Cyngorydd B. Mellor ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. R. James a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

I Gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a
Dibenion Cyffredinol

- 6ed Ionawr 2016

- Rhifau Cofnod 64-72

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P. Prendegast ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cymeradwyo ar gyfer gweithredu.

99. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau a fynychwyd ganddo y mis diwethaf, ac yn benodol ar Drochiad Gŵyl San Steffan yma yn y Rhyl, a ddisgrifiodd fel digwyddiad rhagorol.

100. CYFLWYNIAD: HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod rhif 79 y Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Tachwedd 2015, croesawodd y Maer Sarsiant Steve Prince a PC Les Jones a'u gwahodd i roi trosolwg i'r Aelodau o blismona cymdogaeth.

Soniodd Sarsiant Prince am lefel arwyddocaol o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Rhyl, sef yfed alcohol ar y stryd, ac yn arbennig y tu allan i'r orsaf drenau.

Adroddodd PC Jones bod yr Heddlu yn delio â'r broblem mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych gyda Gorchmynion Amddiffyn Mannau Cyhoeddus. Roedd hwn yn ddarn mawr o waith, y gobeithir ei gyflwyno yng nghanol y dref yn y man.

Dywedodd PC Jones bod 22 o unigolion wedi eu gwahardd o ganol y dref yn llwyr ar hyn o bryd oherwydd ailadrodd troseddau.

I roi syniad i'r Cynghorwyr o faich gwaith yr Heddlu lleol (sy'n cynnwys nid yn unig y Rhyl, ond Prestatyn, Abergele ac ardal Glan Clwyd hefyd), adroddwyd am 50 o ddigwyddiadau yn y 24 awr diwethaf ac o'r rhain, dim ond 6 oedd o natur droseddol, roedd 7 yn ddigwyddiadau gwrthgymdeithasol ac nid oedd y gweddill yn faterion i'r Heddlu.

Adroddodd PC Jones bod economi gyda'r nos y Rhyl yn canolbwyntio ar Water Street, ac roeddynt yn cael llawer iawn o adroddiadau a honiadau o ddigwyddiadau ar y stryd honno, rhai yn ddifrifol iawn. Roedd PC Jones yn falch o adrodd bod gostyngiad o 30% ym mis Rhagfyr 2015 diolch i gydweithio ar ran yr Heddlu, Cyngor Sir Ddinbych a'r Trwyddedai.

Roedd y 'farchnad ddu', troseddau cyffuriau a throseddau adwerthu hefyd yn cadw'r heddlu yn brysur, er bod gostyngiad yn y meysydd hyn ym mis Rhagfyr 2015.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, dywedodd y Swyddogion:

- Ar hyn o bryd roedd wyth swyddog heddlu llawn amser ar gyfer y Rhyl, Prestatyn Abergele ac ardal Glan Clwyd.
- Roedd holl gamddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol yn cael cynnig cymorth gan Gyngor Sir Ddinbych. Yn anffodus nid oedd pawb yn ei dderbyn.
- Roedd y chwech prif 'yfwyr ar y stryd' wedi cael gorchymyn troseddol ac roeddynt yn hyderus y byddai hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o edrych ymlaen i fisedd y gwanwyn a'r haf.

Cynigiodd y Swyddogion ddod i gyfarfod y Cyngor Tref bo chwarter i ddiweddarau'r Aelodau.

Diolchodd y Maer i'r Swyddogion am eu hamser.

PENDERFYNWYD gwahodd Sarsiant Prince a PC Jones i fynychu cyfarfodydd y Cyngor bob tri mis.

101. 'NEWID SYNIAD POBL O'R RHYL'

Fel cynrychiolydd y Cyngor ar yr uchod, adroddodd y Cynghorydd A. J. Rutherford, iddo fynychu'r cyfarfod ar 8fed Ionawr a chyflwyno barn y Cyngor, yn enwedig ar ei ddymuniad i'r wasg leol adrodd am newyddion cadarnhaol a oedd yn digwydd yn y Rhyl, ynghyd â'r negyddol.

Byddai'r grŵp yn cyfarfod eto gyda Golygyddion lleol i bwysleisio'r pwynt hwn a byddai hefyd yn ystyried adnabod yr adnoddau i brynu rhwyll arbennig (gyda delweddau arno) i'w ddefnyddio i wella golwg safleoedd dymchwel / datblygu.

Trafodwyd nifer o sioeau ffordd hefyd, i'w cynnal ar ddydd Sadwrn i hyrwyddo eu gwath ymhellach.

Roedd y Cynghorydd Rutherford yn edmygus o'r hyn a gyflawnwyd gan y grŵp, ac fel y cafodd ei awdurdodi gan y Cyngor, adroddodd ei fod wedi cytuno bod cyfraniad y Cyngor Tref o £5,000 yn cael ei roi.

Dywedodd y Cynghorydd Rutherford bod y grŵp yn hapus i roddi cyflwyniad i'r Cyngor Tref pe byddai'r Aelodau yn teimlo bod hyn yn ddefnyddiol?

PENDERFYNWYD:

(i) *Derbyn yr adroddiad.*

(ii) *'Newid Syniad Pobl o'r Rhyl' i roi cyflwyniad i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor.*

102. ADRODDIAD STRATEGAETH FUDDSODDI

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y cyd-adroddiad ganddo ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar gyfer 2016/17.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

103. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y cyd-adroddiad ganddo ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â phenodi Archwilwyr Mewnol ac Allanol y Cyngor ar gyfer 2016/17.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad a'r argymhelliad.

104. EITEM GAN AELOD: CANOLFAN HAMDDEN Y RHYL

Adroddodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol wedi gofyn iddo gyflwyno'r newidiadau diweddar i nifer o gyfleusterau a gynigiwyd gan y Ganolfan gerbron y Cyngor er trafodaeth.

Dywedodd yr Aelodau mai eu dealltwriaeth hwy oedd bod rhai dosbarthiadau a hyfforddwy'r wedi eu hadleoli i Ganolfan Nova ym Mhrestatyn, i siomedigaeth defnyddwyr rheolaidd y Rhyl.

Cyfeiriodd un Aelod at Mr Jamie Groves o Gyngor Sir Ddinbych yn hysbysu'r Cyngor Tref y byddai Canolfan Nova yn cynnig cyfleusterau gwahanol i Ganolfan Hamdden y Rhyl, i gynyddu dewis yn hytrach na dyblygu, fel bod y ddwy ganolfan yn cystadlu gyda'i gilydd yn y pen draw.

PENDERFYNWYD gwahodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Dr. Mohammed Mehmet, i gyfarfod Arbennig y Cyngor i esbonio'r sefyllfa.

105. EITEM ER GWYBODAETH: CYLCHLYTHYR Y CYNGOR TREF

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau anfon eu syniadau ar gyfer y cylchlythyr nesaf at y Cynghorydd B. Mellor mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Gweithgor Cyfathrebu ar 9fed Chwefror.

106. EITEM ER GWYBODAETH: iPADS CYNGOR SIR DDINBYCH

Adroddodd Clerc y Dref bod ebstiau a anfonwyd gan y Cyngor Tref i Gynghorwyr Tref sydd hefyd yn gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych trwy iPad wedi eu dynodi fel 'sbwriel' ac wedi eu hanfon yn uniongyrchol i'r ffolder sbwriel, gan esbonio pam roedd nifer ohonynt wedi methu â chyrraedd y Cynghorwyr dros yr wythnosau diwethaf.

Ychwanegodd Clerc y Dref nawr bod hyn wedi ei ddarganfod, bod CSDd yn gobeithio datrys y broblem, ond gofynnodd i'r Cynghorwyr dan sylw gysylltu ag adran TG CSDd os byddai'r broblem yn parhau.

107. HOLI AC ATEB

Dywedodd gŵr busnes lleol, Mr B. Lloyd, ei fod eisiau gweld gwell cyfathrebu rhwng y Cyngor Tref a busnesau lleol a holodd beth ellid ei wneud mewn perthynas â hynny?

Hysbysodd y Cynghorwyr Mr Lloyd bod y Cyngor Tref yn y cyfnod cynnar o gyflogi gwasanaethau Swyddog Digwyddiadau, a bod cynyddu nifer ymwelwyr yng nghanol y dref yn rhan o gylch gorchwyl y rôl honno. Roedd databas busnes i'w sefydlu i alluogi cyfathrebu rheolaidd.

At hyn, cyfeiriodd y Cynghorwyr at y ffaith mai'r Cyngor Tref oedd nawr yn gyfrifol am yr holl arddangosfeydd blodau yn y Rhyl, a thrwy barhau gyda'r ddarpariaeth hon

a'i gwella lle bo modd, gobeithir y byddai hyn yn ychwanegu at brofiad siopa pobl, ynghyd â chadw canol y dref yn edrych mor ddeniadol ag y bo modd i'r trigolion.

Dywedodd Mr Lloyd ei fod wedi ei galonogi gan yr hyn y glywodd ac edrychai ymlaen at well perthynas gyda'r Cyngor Tref.

108. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

109. GRŴP BUSNES Y RHYL – CYFARFOD AR Y CYD

Atgoffodd Clerc y Dref a Dirprwy Glerc y Dref yr Aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Wellington am 7.30am ar ddydd Gwener 29ain Ionawr.

Awgrymwyd bod y cyfarfod yn cael ei rannu'n saith pwnc i ddelio â'r holl gwestiynau a'r materion a godwyd gan y Grŵp Busnes a chytunodd y Cynghorwyr Butterfield, James, Prendergast, Roberts, Mellor, Mullen-James a Rutherford arwain ar yr amrywiol bynciau.

110. DIGWYDDIADAU'R RHYL

Ar ran y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol, adroddod Clerc y Dref bod y Pwyllgor nawr wedi cyfarfod â Ms Wheatley o Gunsmoke Communications ac yn fodlon iawn â'r hyn a glywsant.

Roedd Ms Wheatley wedi cytuno trefnu digwyddiad prawf, ac yna cymerid penderfyniad ar ddefnyddio gwasanaethau Gunsmoke Communications yn y tymor hirach.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r Aelodau roi awdurdod i'r Pwyllgor i oruchwylio a rheoli penodiad Ms Wheatley ar gyfer y digwyddiad cyntaf.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i oruchwylio holl agweddau rheoli'r digwyddiad cyntaf.

111. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Dirprwy Faer:.....

Dyddiad: